OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 3233

# Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cymeriad Crefyddol Ysgolion) (Gweithdrefn Ddynodi) (Cymru) 2003

**Gweithdrefn gwneud cais**

**4.**—(1) Er mwyn i ysgol annibynnol gael ei dynodi yn ysgol grefyddol ei chymeriad, rhaid i berchennog yr ysgol wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am orchymyn o dan adran 69(3).

(2) Rhaid i'r cais —

(a) datgan crefydd berthnasol neu enwad crefyddol perthnasol yr ysgol;

(b) cynnwys y sail dros wneud y cais ynghyd ag unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r sail honno; ac

(c) cynnwys unrhyw sylwadau a wneir gan gorff crefyddol ar ran yr ysgol.

(3) Pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cael cais am orchymyn, o dan y Rheoliadau hyn, caiff ymgynghori ag unrhyw gorff crefyddol y mae'n ei farnu'n briodol ynghylch cais yr ysgol.